## CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | **Twf – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith** |
| **Aelod Cabinet:** | **Cyng. Llio Elenid Owen** |
| **Swyddog perthnasol:** | **Eurig Williams (Rheolwr – Gwasanaeth Adnoddau Dynol)** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **16 Rhagfyr 2025** |

1. **Penderfyniad a Geisir:**
Bod y Cabinet yn penderfynu ar ran y Cyngor fel cyflogwr i fabwysiadu Twf – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith, Cyngres Undebau Llafur Cymru (TUC Cymru), ar y cyd â chynrychiolwyr lleol undebau Unsain, GMB ac Unite.

2. **Beth yw'r rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**
Er mwyn galluogi'r Cyngor i fabwysiadu'r Siarter yn ffurfiol.

3. **Cyflwyniad a Rhesymeg**

3.1 Mae TUC Cymru wedi datblygu a mabwysiadu siarter benodol, o dan y teitl Siarter Twf, sydd yn cefnogi gweithwyr, eu hundebau llafur a chyflogwyr i gydweithio i greu gweithleoedd dwyieithog. Mae pwyslais penodol hefyd ar sicrhau cynnydd yn nefnydd y Gymraeg yn y gwaith ac ar sicrhau fod gan weithwyr fynediad i gynrychiolaeth gan undebau llafur yn eu dewis iaith. Rhoddwyd mewnbwn i ddatblygu'r siarter gan Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu, Adran Gwasanaethau Corfforaethol, ac eraill sydd yn aelodau o Grŵp Llywio Gweithleoedd a'r Gymraeg Comisiynydd y Gymraeg. Arweiniodd y gwaith hwn at i'r TUC gefnogi a mabwysiadu'r siarter yn ffurfiol.

3.2 Wrth gytuno i fabwysiadu ac arwyddo'r siarter, mae'r undebau llafur a'r cyflogwr yn ymrwymo i gydweithio ar sail pedair egwyddor graidd. Felly, o gymeradwyo'r penderfyniad a geisir, byddai'r Cabinet yn ymrwymo fod y Cyngor fel cyflogwr yn gweithredu yn unol â'r egwyddorion canlynol :

a) Twf a hawliau'r Gymraeg –ymrwymiad i dyfu'r Gymraeg yn y gweithle.

b) Cynhwysiant a chyfiawnder ieithyddol – creu diwylliant gwaith sydd yn gefnogol i ddefnyddio'r Gymraeg.

c) Arweinyddiaeth ac atebolrwydd – gwreiddio ethos a diwylliant dwyieithog gweladwy a chynhwysol.

ch) Dysgu parhaus a meithrin hyder – rhoi cefnogaeth barhaus i staff ddysgu a gwella eu sgiliau Cymraeg.

**Manylir ar union fanylion y bedair egwyddor yn Atodiad 1.** Mae'r egwyddorion hyn yn dangos yr ymrwymiad sydd rhwng yr undebau llafur a'r cyflogwr i weithio mewn partneriaeth wrth ddarparu gweithle ddwyieithog gynhwysol ac i hyrwyddo a galluogi'r twf yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith. Gellir darllen mwy am y bedair egwyddor a chefndir y siarter yn ehangach trwy ddilyn y linc Twf - Siarter y Gymraeg yn y Gwaith | TUC

3.3 Mae Cyngor Gwynedd wrth gwrs wedi arwain y ffordd ers blynyddoedd wrth greu diwylliant sydd yn rhoi'r Gymraeg yn ganolog i'w waith fel corff. Mae hybu defnydd o'r Gymraeg gan drigolion y sir yn un o'r cynlluniau blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor ac mae Strategaeth Iaith 2023-2033 yn nodi y gweithle fel un o'r meysydd sydd angen sylw er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir.

3.4 Mae'n hynod galonogol ac i'w groesawu fod TUC Cymru wedi penderfynu mabwysiadu'r siarter hon fel dull o genhadu pwysigrwydd y Gymraeg i ddyfodol economaidd Cymru ac er mwyn sicrhau fod cyflogwyr yn gynrychioladol o'r gymdeithas. Rydym yn falch iawn o ddweud fod cynrychiolwyr lleol a rhanbarthol y dair undeb dan sylw yn awyddus iawn i'r Cyngor fabwysiadu'r siarter yn ffurfiol, ac i barhau gyda'r cydweithio adeiladol sydd yna er mwyn sicrhau fod gweithwyr yn cael eu cynrychioli trwy'r Gymraeg.

3.5 Yn unol â'r gofynion sydd yn eu lle gan TUC Cymru, mae cynrychiolwyr y dair undeb dan sylw eisoes wedi cyfarfod gyda Rheolwr Gwasanaeth Adnoddau Dynol y Cyngor, a'r Dr Mandy James, sef Swyddog Cyfathrebu Dwyieithog y TUC, er mwyn derbyn gwybodaeth bellach ar gynnwys y siarter ac i sicrhau fod yna gefnogaeth ac ymrwymiad ar y cyd i'r egwyddorion craidd. Pe bai'r Cabinet yn penderfynu fod Cyngor Gwynedd i fabwysiadu'r siarter yn ffurfiol, yna fe fydd yna seremoni gyd-lofnodi rhwng cynrychiolwyr canghennau'r undebau llafur, Cyngor Gwynedd a TUC Cymru. Y bwriad wedyn fyddai hyrwyddo cynnwys y siarter ymhlith gweithlu'r Cyngor, fel dull o gryfhau ymhellach hawliau gweithwyr Cymraeg eu hiaith o fewn y gweithle.

3.6 Gobeithir hefyd y bydd mabwysiadau'r siarter yn annog gweithleoedd eraill yng Ngwynedd a thu hwnt i ddilyn esiampl Cyngor Gwynedd ac arwain at gamau cadarnhaol i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol.**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

**4.2 Swyddog Monitro**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.